WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad o drefniadau llywodraethu – **Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd**

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1280A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle y bo'n briodol, yr archwilydd penodedig yw'r trydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Ian Phillips a Sara-Jane Byrne dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar gam ffurfiannol a'r arwyddion yw y byddant yn cefnogi prosesau penderfynu cadarn ac effeithiol, ond mae cyfle o hyd i wella tryloywder.


Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl

Mae trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar gam ffurfiannol a'r arwyddion yw y byddant yn cefnogi prosesau penderfynu cadarn ac effeithiol, ond mae cyfle o hyd i wella tryloywder 7

Mae trefniadau llywodraethu Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn dal i ddatblygu a chryfhau 7

Mae'r Cynllun Diwydiannol ac Economaidd yn helpu i roi gweledigaeth strategol glir i Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd 9

Mae gan Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd drefniadau rheoli risg a rheoli perfformiad ond mae cyfle i sicrhau bod y rhain yn gweithredu'n gyson 10

Dylai Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wella'i dryloywder ac atebolrwydd ehangach 10

Mae Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn datblygu proses fwy trylwyr a strwythuredig ar gyfer dewis a dad-ddewis prosiectau, ond mae'n cydnabod bod angen cryfhau ystyriaeth i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 12

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Fe gynhaliom ni adolygiad i benderfynu a yw trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cefnogi prosesau penderfynu cadarn, tryloyw ac effeithiol. Fe gynhaliom ni'r adolygiad i helpu i gyflawni dyletswydd yr Archwilydd Cyffredinol i'w argyhoeddi ei hun bod gan Cabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (y Cabinet Rhanbarthol) wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

2 Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd oedd y trefniant bargen ddinesig cyntaf yng Nghymru. Mae lefel y buddsoddiad a'r deilliannau posibl yn sylweddol. Mae'n bwysig bod gan y Cabinet Rhanbarthol drefniadau i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. Fel rhan o gyflawni hynny, mae bod â threfniadau llywodraethu cryf i gefnogi Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn hollbwysig.

3 Ym mis Rhagfyr 2018, fe gyhoeddom ni adroddiad yn dilyn ein hadolygiad o'r trefniadau a oedd yn cefnogi penderfyniad buddsoddi cyntaf Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Yn yr adroddiad hwnnw fe wnaethom gydnabod nad oedd agweddau ar y Fframwaith Sicrwydd y cytunwyd arno yn eu lle ar adeg y penderfyniad, gan ei fod wedi cael ei wneud ar gamau cynnar y bartneriaeth. Canfuom rai gwersi a ddeilliodd o wneud y buddsoddiad cyntaf. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn nodi ein canfyddiadau ynglŷn â'r trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd sydd wedi esblygu ers y penderfyniad buddsoddi cyntaf.

4 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Hydref 2018 a mis Chwefror 2019.

### Yr hyn a ganfuom

5 Mae trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar gam ffurfiannol a'r arwyddion yw y byddant yn cefnogi prosesau penderfynu cadarn ac effeithiol, ond mae cyfle o hyd i wella tryloywder. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae trefniadau llywodraethu Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn dal i ddatblygu a chryfhau;
- mae'r Cynllun Diwydiannol ac Economaidd yn helpu i roi gweledigaeth strategol glir i Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd;
- mae gan Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd drefniadau rheoli risg a rheoli perfformiad ond mae cyfle i sicrhau bod y rhain yn gweithredu'n gyson;

- dylai Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wella'i dryloywder ac atebolrwydd ehangach; ac
- mae Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn datblygu proses fwy trylwyr a strwythuredig ar gyfer dewis a dad-ddewis prosiectau, ond mae'n cydnabod bod angen cryfhau ystyriaeth i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## Cynigion ar gyfer gwella

### Arddangosyn 1: Cynigion ar gyfer gwella

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd gennym yn dilyn yr adolygiad hwn.

| **Cynigion ar gyfer gwella** | |
|---|---|
| C1 | Mae angen i Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wella'i thryloywder. Er enghraifft:<br>• sicrhau bod agendâu, papurau cysylltiedig, adroddiadau a chofnodion yn cael eu cyhoeddi'n brydlon ar wefan Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar gyfer cyfarfodydd y Cabinet Rhanbarthol, yr Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r Cyd-bwyllgor Craffu, yn amodol ar y drefn briodol i ddal gwybodaeth sy'n gyfrinachol neu wedi'i hesemptio yn ôl;<br>• cyfeirio at gyfarfodydd nesaf yr Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r Cydbwyllgor Craffu ar wefan Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn unol â'u natur fel cyfarfodydd cyhoeddus;<br>• mae angen i'r Cabinet Rhanbarthol sicrhau bod her a thrafodaethau agored yn digwydd yn gyhoeddus; ac<br>• ystyried sut y gall wella mynediad y cyhoedd at ei gyfarfodydd cyhoeddus. |
| C2 | Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i ystyried a fydd cynllun dirprwyo'n gwella trefniadau presennol i hwyluso prosesau penderfynu. |
| C3 | Ystyried ymhellach sut y mae'r Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol, y Cyngor Busnes Rhanbarthol, y Bartneriaeth Twf Economaidd Ranbarthol, y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol a'r Cydbwyllgor Craffu'n cydweithio ac yn rhannu gwybodaeth. |
| C4 | Egluro trefniadau mewn perthynas â datgan buddiannau a gwrthdaro buddiannau ar gyfer aelodau a swyddogion. |
| C5 | Er ein bod yn cydnabod bod y Cydbwyllgor Craffu'n dal yn gymharol newydd, rhaid i Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd sicrhau ei bod yn cofleidio rôl bwysig craffu o ran sicrhau atebolrwydd a her effeithiol. |

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| C6 | Er nad yw Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ‘gorff cyhoeddus’ o fewn ystyr adran 6 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, dylai Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd roi ystyriaeth drylwyr i’r modd y mae’n helpu cyrff cyhoeddus sy’n rhan ohoni i gyflawni’r dyletswyddau datblygu cynaliadwy a llesiant yn y Ddeddf honno. |

# Adroddiad manwl

## Mae trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar gam ffurfiannol a'r arwyddion yw y byddant yn cefnogi prosesau penderfynu cadarn ac effeithiol, ond mae cyfle o hyd i wella tryloywder

## Mae trefniadau llywodraethu Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn dal i ddatblygu a chryfhau

6 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuom fel a ganlyn:

- mae llawer o'r trefniadau nad oeddent yn eu lle ar adeg y penderfyniad buddsoddi cyntaf yn eu lle erbyn hyn yn unol â'r Cytundeb Cydweithio a'r Fframwaith Sicrwydd. Er enghraifft, mae'r cyrff cynghori yn eu lle ac mae eu momentwm yn dechrau tyfu, ac mae'r cydbwyllgor craffu wedi cael ei sefydlu ac wedi cwrdd ddwywaith.
- mae perthnasoedd gweithio rhwng partneriaid yn gwella.
- roedd cyfweleion yn canmol perfformiad y Cyfarwyddwr Rhaglen yn y rôl, yn enwedig yr ysgogiad yr oedd hi'n ei roi.
- mae Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cydnabod nad oes gan swyddfa'r Fargen Ddinesig (Swyddfa'r Rhaglen yn flaenorol) ddigon o adnoddau. Mae'r Cabinet Rhanbarthol wedi cytuno'n ddiweddar y bydd capasiti swyddfa'r Fargen Ddinesig yn cael ei gryfhau, ac mae nifer o swyddi newydd wedi cael eu creu ac yn cael eu hysbysebu ar hyn o bryd.
- mae'r Corff Atebol wedi nodi y gallai cynllun dirprwyo fod o fudd i alluogi'r Cyfarwyddwr Rhaglen i wneud penderfyniadau wedi'u dirprwyo, gan ddatblygu'r Polisi Dirprwyo a geir yn y Cytundeb Cydweithio ymhellach. Rydym yn nodi bod Cynllun Busnes Blynyddol Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd 2019-20 wedi nodi datblygu cynllun dirprwyo fel cam gweithredu.
- mae Cadeiryddion y cyrff cynghori'n cwrdd bob hyn a hyn ond gallai'r cysylltiadau rhwng y priod gyrff (a'r Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r Cydbwyllgor Craffu) gael eu cryfhau ymhellach. Er enghraifft, trwy adeiladu ar y cyfarfodydd hynny, rhannu papurau cyfarfodydd a hysbysu ei gilydd yn llawn ynghylch eu priod raglenni gwaith.
- fe gwblhaodd swyddogaeth archwilio mewnol Cyngor Caerdydd adolygiad llai manwl ym mis Gorffennaf 2018 i ddarparu sicrwydd bod strwythur digonol o drefniadau llywodraethu o fewn Bargen Ddinesig Prifddinas-

Ranbarth Caerdydd o ran y Corff Atebol a'r Swyddfa Rheoli Rhaglen yn bodoli ac yn gweithredu'n effeithiol. Rhoddodd y tîm archwilio mewnol sgôr sicrwydd o 'effeithiol gyda chyfle i wella' i agweddau ar y fframwaith llywodraethu. Fe wnaeth y tîm archwilio mewnol bedwar argymhelliad mewn perthynas â rheoli risg, craffu, tryloywder, cofrestrau buddiannau, rheoli contractau a chaffael. Mae Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi datblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn. Cafodd yr argymhellion eu cynnwys yn yr adroddiad ar berfformiad yn chwarter un, a chafodd diweddariad yn erbyn y cynllun gweithredu ei gynnwys yn y diweddariad ar y cynllun busnes blynyddol yn chwarter tri i'r Cabinet Rhanbarthol.

- mae natur y Fargen Ddinesig yn golygu bod cryn dipyn o ymwneud â sefydliadau preifat a thrydydd partïon. Felly, mae'n bwysig bod proses eglur a chadarn ar gyfer datgan buddiannau a rheoli gwrthdaro buddiannau. Mae'r agendâu ar gyfer y Cabinet Rhanbarthol, y Cydbwyllgor Craffu a'r Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys datgan buddiannau fel eitem sefydlog ar yr agenda. Fodd bynnag, ar gyfer y Cabinet Rhanbarthol a'r Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol dim ond buddiannau'r aelodau y mae'r eitem hon yn eu cynnwys ar hyn o bryd tra bo'r eitem ar agenda'r Cydbwyllgor Craffu'n ymwneud â swyddogion ac aelodau.
- mae datganiadau o fuddiannau pob aelod o'r Cabinet Rhanbarthol wedi'u cynnwys ar wefan Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd dan y ddolen ar gyfer y Cabinet Rhanbarthol. Rydym yn nodi nad yw datganiadau o fuddiannau ar gyfer holl aelodau'r Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi'u cynnwys ar wefan y Fargen Ddinesig ar hyn o bryd. Nid yw gwefan Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cynnwys unrhyw wybodaeth am y cydbwyllgor craffu a'i aelodau.
- mae cyfle i egluro'r broses o ran datgan buddiannau. Mae paragraffau yn y Cytundeb Cydweithio ynglŷn â chodau ymddygiad yn croesddweud ei gilydd. Ym mharagraff 3.56 nodir y bydd Cynghorau Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn 'gweithredu gan ystyried codau ymddygiad cyflogwr ac aelodau'r Cynghorau eu hunain...' ac mae paragraff 3.59 yn nodi geiriad tebyg, ond eto mae paragraff 10.17 yn nodi y 'dylai'r Cydbwyllgor fabwysiadu...codau ymddygiad y Corff Atebol...'. Rydym yn cydnabod yn ymarferol efallai nad oes llawer o wahaniaeth rhwng y codau hyn, ond i osgoi dryswch, byddai'n synhwyrol datrys hyn a sicrhau bod pawb yn glir beth yw'r disgwyliadau o ran datgan buddiannau. Dylai hyn gynnwys swyddogion ac aelodau. Awgrymodd y tîm archwilio mewnol y dylid datblygu cofrestr buddiannau. Nid ydym yn ymwybodol bod hyn wedi cael ei wneud.

# Mae’r Cynllun Diwydiannol ac Economaidd yn helpu i roi gweledigaeth strategol glir i Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

7 Wrth ddod i’r casgliad hwn canfuom fel a ganlyn:

- fe lansiodd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd Gynllun Diwydiannol ac Economaidd yn ddiweddar yn dilyn cytundeb gan y Cabinet Rhanbarthol. Mae ysgogi buddsoddiadau gan y sector preifat a chynyddu i’r eithaf fentrau cyllido yn y sector cyhoeddus yn rhan allweddol o hyn i gynyddu cyllid Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar y cyfan yn ogystal â hyrwyddo’r rhanbarth yn rhyngwladol i ddenu buddsoddiadau yn y rhanbarth.
- canfu ein gwaith maes fod hyder a brwdfrydedd y byddai’r Cynllun Diwydiannol ac Economaidd yn darparu gweledigaeth strategol glir, nad oedd wedi bodoli’n flaenorol. Mae’n amlwg bod y Bartneriaeth Twf Economaidd Ranbarthol wedi cyflawni rôl arwyddocaol o ran datblygu’r cynllun hwn.
- mae partneriaid Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cydnabod y cynlluniau gan Lywodraeth Cymru sy’n dod i’r amlwg mewn perthynas â datblygu economaidd rhanbarthol a phwysigrwydd bod â dull strategol cydgysylltiedig. Mae trafodaethau’n mynd rhagddynt gyda swyddogion Llywodraeth Cymru. Mae’n bwysig bod Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cydweithio’n agos gyda Llywodraeth Cymru i leihau i’r eithaf unrhyw ddyblygu a sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio’n effeithlon ac yn effeithiol er budd y rhanbarth.
- mae’n amlwg bod partneriaid Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn meddwl yn rhanbarthol ac yn ofodol yn hytrach na’u bod yn syml yn cynnig prosiectau gan gynghorau unigol. Ceir ewyllys cyfunol ymhlith Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i’w herio’u hunain bod prosiectau’n cyd-fynd â’r hyn sydd orau er budd y rhanbarth a bod achosion busnes yn gadarn. Er enghraifft, rydym yn ymwybodol bod nifer o brosiectau wedi cael eu herio gan y panelau cynghori ac na fwriwyd ymlaen â hwy oherwydd pryderon ynghylch ansawdd yr achosion busnes.

## Mae gan Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd drefniadau rheoli risg a rheoli perfformiad ond mae cyfle i sicrhau bod y rhain yn gweithredu'n gyson

8 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuom fel a ganlyn:

- cyflwynir adroddiadau chwarterol a blynyddol ar berfformiad i'r Cabinet Rhanbarthol. Mae'r Cyfarwyddwr Rhaglen wedi gwella fformat yr adroddiadau chwarterol fel eu bod yn cynnwys ffocws mwy pendant. Wrth arsylwi ar gyfarfod y Cabinet Rhanbarthol ar 18 Chwefror, canfuom fod aelodau'n gwerthfawrogi'r newidiadau. Fodd bynnag, canfuom mai ychydig o drafod a fu yn ystod y cyfarfod am y materion sylweddol yn yr adroddiad chwarterol ar berfformiad.
- mae monitro cynnydd unrhyw un o brosiectau Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn erbyn ei chynllun rhaglen yn rhan o Amodau Gorchwyl y Cydbwyllgor Craffu. Fodd bynnag, hyd yma nid yw'r Cydbwyllgor Craffu wedi cael unrhyw adroddiadau ar berfformiad nac ar gynnydd. Dim ond dwywaith y mae wedi cwrdd ers iddo gael ei sefydlu ym mis Hydref 2018.
- cyflwynir adroddiadau monitro perfformiad chwarterol i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.
- roedd y datganiad Llywodraethu Blynyddol yn nodi lefel gyfyngedig o sicrwydd ar gyfer adnabod a rheoli risgiau. Cynhyrchodd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd Gynllun Gweithredu mewn perthynas â'i Datganiad Llywodraethu Blynyddol a oedd yn nodi mai'r Cyfarwyddwr Rhaglen fyddai'n arwain o ran sefydlu'r trefniadau priodol ar gyfer Rheoli Risgiau Strategol. Fe wnaed hyn wedyn, ac mae adroddiadau chwarterol ar berfformiad bellach yn cynnwys Log Risgiau Strategol. Mae'r adroddiadau chwarterol ar berfformiad ar gyfer Chwarter 2 a Chwarter 3 yn 2018-19 yn nodi bod disgwyl i ddull rheoli risgiau Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd gael ei ddatblygu ymhellach dros y tymor hwy.

## Dylai Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wella'i dryloywder ac atebolrwydd ehangach

9 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuom fel a ganlyn:

- mae gwefan Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi cael ei diweddaru a'i gwella. Fodd bynnag, canfuom sawl enghraifft lle nad yw gwybodaeth am gyfarfodydd wedi cael ei chyhoeddi ar y wefan. Er enghraifft, nid yw cyfarfodydd y Cabinet Rhanbarthol ar 30 Mehefin 2017 ac

14 Gorffennaf 2017, unrhyw gyfarfodydd gan yr Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol (ac eithrio'r cyfarfod cyntaf a'r cyfarfod ar 5 Mawrth 2019) nac unrhyw gyfarfodydd gan y cydbwyllgor craffu wedi'u cynnwys ar y wefan. Felly, mae'n anodd i aelodau'r cyhoedd ganfod beth ddigwyddodd yn y cyfarfodydd hyn.

- Yn yr adran 'digwyddiadau ar y gweill' ar wefan Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, yn nodweddiadol dim ond un cyfarfod gan y Cabinet Rhanbarthol y cyfeirir ato. Byddem yn disgwyl bod dyddiadau cyfarfodydd allweddol yn y dyfodol yn cael eu cyhoeddi. Rydym yn ymwybodol bod cyfarfod gan y Cydbwyllgor Craffu ar 26 Mawrth, er enghraifft. Gan bod cyfarfodydd yr Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r Cydbwyllgor Craffu'n gyfarfodydd cyhoeddus hefyd, dylid darparu gwybodaeth sy'n dynodi pryd y mae'r cyfarfodydd hynny'n mynd i gael eu cynnal er mwyn hwyluso cyfranogiad ac ymwybyddiaeth y cyhoedd. Mae'n ofyniad statudol bod cyfarfodydd y Cabinet Rhanbarthol, yr Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r Cydbwyllgor Craffu yn agored i'r cyhoedd, ac eithrio ar gyfer yr eitemau hynny ar yr agenda lle mae gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth sydd wedi'i hesemptio'n cael ystyriaeth briodol.
- mae ewyllys ymhlith partneriaid Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i sicrhau mwy o dryloywder yn y dyfodol.
- mae cyfarfodydd y Cabinet Rhanbarthol yn agored i'r cyhoedd, ond nid yw lleoliad rhai cyfarfodydd wedi bod yn ffafriol i hyn. Mae angen i Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ystyried sut y gall wella mynediad i'w gyfarfodydd ar gyfer y cyhoedd.
- y Cabinet Rhanbarthol yn y bôn yw corff penderfynu Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Dyma ble y bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud ynglŷn â pha brosiectau y bwriedir bwrw ymlaen â hwy, a hwythau o bosibl yn ymwneud â symiau mawr o arian. Rydym yn ymwybodol bod sesiynau briffio'n aml yn cael eu cynnal yn breifat cyn cyfarfodydd. Nid yw hyn yn anarferol, ac rydym yn cydnabod yr angen i aelodau'r Cabinet Rhanbarthol allu cael rhywfaint o drafodaeth yn breifat. Fodd bynnag, mae angen i'r Cabinet Rhanbarthol sicrhau y ceir her a thrafodaeth agored yng ngŵydd y cyhoedd ac nad yw'n dod yn ddim byd mwy na mecanwaith i 'roi sêl bendith'.
- dim ond ar ôl bwrw ymlaen â mwy o brosiectau a monitro eu cynnydd y bydd modd ffurfio barnau priodol ynglŷn â llinellau atebolrwydd ar lefel prosiectau. Fodd bynnag, bydd yn bwysig bod yn glir pwy yn union sy'n gyfrifol am beth, gan gynnwys pob un o dair ffrwd arfaethedig y gronfa fuddsoddi ranedig, a sut y bydd cynnydd ac atebolrwydd yn cael eu monitro.
- bydd y Cydbwyllgor Craffu'n rhoi mwy o atebolrwydd cyhoeddus hefyd. Mae Cyfarwyddwr Rhaglen Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cydnabod y bydd gan y Cydbwyllgor Craffu rôl bwysig o ran craffu cyn penderfyniadau, gan fwrw golwg ar brosiectau cyn bod y Cabinet

Rhanbarthol yn penderfynu arnynt. Nid yw'r rôl hon wedi cael ei phrofi eto. Mae'r Cynllun Diwydiannol ac Economaidd i fod i gael ei ystyried yng nghyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Craffu, ond mae hwn wedi cael ei gytuno a'i lansio'n barod.

- bydd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cael Adolygiad Gateway gan HMT ym mis Rhagfyr 2020, y mae'r gwaith ategol ar ei gyfer yn cael ei wneud ar hyn o bryd gan ymgynghorwyr. Rydym yn deall mai Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd oedd y Fargen Ddinesig gyntaf yn yr ail gohort o fargeinion dinesig ledled y DU i gytuno ar ei fframwaith gwerthuso gyda'r ymgynghorwyr. Rydym wedi rhannu ein hadroddiad ar y trefniadau a gefnogodd y penderfyniad buddsoddi cyntaf gyda HMT a byddwn hefyd yn rhannu'r adroddiad hwn gyda hwy. Byddwn yn cadw mewn cysylltiad â HMT.

# Mae Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn datblygu proses fwy trylwyr a strwythuredig ar gyfer dewis a dad-ddewis prosiectau, ond mae'n cydnabod bod angen cryfhau ystyriaeth i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

10 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuom fel a ganlyn:

- mae Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi defnyddio gwasanaeth arbenigwyr cyfreithiol allanol i helpu i ddatblygu fframwaith buddsoddi ac ymyrryd cyffredin yr ydym yn deall na fydd yn cynnwys meini prawf i helpu i benderfynu a fyddir yn bwrw ymlaen â phrosiect ai peidio. Rydym hefyd yn nodi bod Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn gweithio gydag ymgynghorwyr allanol ar ddefnyddio model busnes pum achos HMT.
- dywedodd cadeiryddion y cyrff cynghori wrthym bod eu priod gyrff wedi bod yn gadarn o ran herio prosiectau, ac ansawdd adroddiadau y gofynnwyd iddynt eu hystyried.
- mae Swyddfa'r Fargen Ddinesig yn cynnig bod y gronfa fuddsoddi £495 miliwn yn cael ei rhannu'n dair ffrwd a fydd yn cynnwys cronfa arloesi, cronfa seilwaith a chronfa her. Y nod yw darparu strwythur a thrylwyredd gwell ar gyfer defnyddio'r cyllid yn unol ag amcanion allweddol y Fargen Ddinesig. Nid yw'r Cabinet Rhanbarthol wedi cytuno â'r cynnig hwn eto, ond roedd yn amlwg o'r hyn a ddywedodd ein cyfweleion bod cyrff cynghori, swyddogion ac aelodau wedi bod yn rhan o ddatblygu'r dull hwn. Dylai'r gronfa fuddsoddi tair ffrwd arfaethedig gryfhau'r broses cymeradwyo prosiectau trwy helpu i adnabod prosiectau hyfyw.

- mae partneriaid Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ymwybodol o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Maent wedi cwblhau Asesiad Cenedlaethau'r Dyfodol i gyd-fynd â'r Cynllun Twf Diwydiannol ac Economaidd. Er nad yw Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, fel rydym ni'n deall,  yn 'gorff cyhoeddus' o fewn ystyr adran 6 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, dylai Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd roi ystyriaeth drylwyr i'r modd y mae'n helpu'r cyrff cyhoeddus sy'n rhan ohoni i gyflawni dyletswyddau datblygu cynaliadwy a llesiant y Ddeddf mewn prosiectau a buddsoddiadau arfaethedig i gynyddu i'r eithaf y cyfle y mae'r Ddeddf yn ei gynnig. Mae angen i hynny ddod yn rhan annatod o ffordd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd o feddwl. Mae Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cyhoeddi cyfres o adnoddau gan gynnwys Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol, y gallai partneriaid Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd eu cael yn ddefnyddiol i oleuo'u Hasesiadau Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae Cyfarwyddwr y Fargen Ddinesig yn cydnabod bod hwn yn faes y mae angen ei wella.
- mae gweithgarwch yn cyflymu gan bod mwy o brosiectau'n cael eu hystyried yn awr. Mae'n gadarnhaol bod Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn awyddus i sicrhau eu bod yn cael eu hystyried yn erbyn fframwaith asesu cadarn mewn perthynas â'i blaenoriaethau. Byddwn yn parhau i gynnal briff gwylio wrth i brosiectau gael eu penderfynu trwy brosesau Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru